Brecon Beacons Tourism actively working together
Powys
Glandŵr Cymru The Canal & River Trust in Wales
Strategic Research & Insight




# Arolwg Ymwelwyr Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2016-17

BANNAU BRYCHEINIOG
EIN PARC CENEDLAETHOL

**Cynnwys** **Tudalen**

1. Crynodeb Gweithredol ... 3
2. Cyflwyniad a Chefndir ... 6
    Cefndir Arolwg ... 6
    Amcanion Ymchwil ... 6
3. Methodoleg ... 7
    Dull yr Arolwg ... 7
    Lleoliadau Samplo a Chyfweliadau a Gyflawnwyd ... 8
    Dosraniad Cyfweliadau ... 9
    Dilysrwydd ystadegol ... 10
    Strwythur yr adroddiad ... 10
4. Mathau o Ymwelwyr a Chymhellion ... 11
    Prif reswm dros y daith ... 11
    Cymhellion dros ddewis Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ... 12
5. Proffil Ymwelwyr ... 15
    Demograffeg ... 15
    Tarddiad ymwelwyr ... 18
6. Cynllunio, Cyrchu Gwybodaeth a Hanes Ymweliadau ... 20
    Hanes Ymweliadau ... 20
    Cynllunio'r ymweliad ... 21
7. Gweithgareddau Ymwelwyr a'r Amser a Dreuliwyd yn y Parc ... 24
    Beth mae ymwelwyr yn ei wneud? ... 24
    A ydyn nhw'n defnyddio'r Parc Cenedlaethol ar gyfer ymarfer corff? ... 25
    I ble mae ymwelwyr yn mynd? ... 26
    Pa mor hir maen nhw'n aros? ... 27
    Sut maen nhw'n teithio o amgylch y Parc? ... 29
8. Boddhad Ymwelwyr a Chanfyddiadau o'r Gyrchfan ... 30
    Boddhad ymwelwyr yn gyffredinol ... 30
    Gwasanaeth i gwsmeriaid yn y cyfleusterau ... 31
    Tebygolrwydd o ddychwelyd ... 32
    Tebygolrwydd o argymell ... 33
    Hoff bethau am Fannau Brycheiniog ... 34
    Meysydd i’w gwella ... 35
9. Ymwybyddiaeth a barn am y Parc Cenedlaethol ... 36
    Ymwybyddiaeth ... 36
    Canfyddiadau o'r Parc Cenedlaethol ... 37
    Isadeiledd Ymwelwyr ... 39
    Boddhad gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol ... 41

10. Gwariant Ymwelwyr a Maint Partïon ........................................................................ 45
Gwariant ymwelwyr ........................................................................ 45
Maint y grŵp ........................................................................ 46
11. Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Phen y Fan ........................................................................ 47
Aelodaeth ac Ymwybyddiaeth o Rôl yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol .............. 47
12. Casgliadau ........................................................................ 49

# 1. Crynodeb Gweithredol

Casglodd Arolwg Ymwelwyr Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2016-17 dros 1,700 o ymatebion drwy arolwg a gynhaliwyd wyneb yn wyneb ac ar-lein rhwng mis Chwefror 2016 a mis Mawrth 2017. Roedd 36% o'r rhai a gymerodd ran yn ymwelwyr dydd, 19% yn bobl leol, a'r 45% eraill yn ymwelwyr a oedd yn aros. Dangosir prif uchafbwyntiau allweddol yr arolwg isod:

## Cymhellion a dylanwadau dros fynd am daith i'r Parc

**Tirwedd, cerdded ac ymweliadau blaenorol yw'r prif gymhelliannau**

- Gwnaeth yr ymwelwyr ddewis y Parc Cenedlaethol oherwydd y golygfeydd a chefn gwlad prydferth (59%), cerdded yn yr uwchdiroedd (33%), ymweliadau blaenorol (28%), heddwch a thawelwch (25%), cerdded yn yr isdiroedd (23%), ac ar gyfer iechyd/ymarfer corff (21%).
- Mae harddwch yr ardal yn fwy deniadol i ymwelwyr o dramor (74%) a Lloegr (65%) nag y mae ar gyfer ymwelwyr o Gymru (52%).
- Mae mynd yn iach a gwneud ychydig o ymarfer corff yn ysgogiad cryfach i ymwelwyr dydd (27%) nag ar gyfer grwpiau eraill.

**Mwynhau'r awyr agored, ymweld â'r Parc Cenedlaethol a'r effaith ar les sy'n fwyaf dylanwadol**

- Pan wnaethom holi barn ymwelwyr, mwynhau'r awyr agored a'r awyr iach yw'r hyn sy'n fwyaf tebygol o ddylanwadu ar benderfyniad i ymweld â'r Parc (61%). Dyma yw'r prif ysgogiad i ymwelwyr dydd (67%) ond mae ymwelwyr o dramor (44%) yn fwy tebygol o gael eu dylanwadu gan ymweliad â'r Parc ei hun (60% o'i gymharu â 42% yn gyffredinol).
- Mae gwella lles – yn gorfforol ac yn feddyliol – yn dylanwadu ar oddeutu dwy ran o bump i ymweld.

## Proffil ymwelwyr

**Nid oes un grŵp oedran sy'n goruchafu, ychydig mwy o ymwelwyr sy'n ddynion, a mwy o grwpiau cymdeithasol sy'n fwy cefnog**

- Mae proffil oedran ymwelwyr dydd Bannau Brycheiniog yn debyg i Gymru, ond ychydig yn uwch ymysg pobl rhwng 16 a 34 mlwydd oed (26% o'i gymharu â 23%) ac yn is ar gyfer pobl dros 55 mlwydd oed (33% a 39%).
- Mae ymwelwyr sy'n aros yn dueddol o fod yn iau nag ar gyfer Cymru gan fod 36% rhwng 16 a 34 mlwydd oed o'i gymharu â 18% ar gyfer Cymru.
- Mae 53% o ymwelwyr yn ddynion, a 47% yn fenywod. Roedd gan 23% gi, a chododd hynny i 30% ar gyfer pobl leol. Mae 80% o ymwelwyr o fewn grwpiau cymdeithasol ABC1, sy'n uwch nag ar gyfer ymwelwyr â Chymru sy'n aros (72%) neu ymwelwyr dydd (65%).

**Mae hanner o'r holl ymwelwyr yn dod o Gymru, a dwy ran o bump o Loegr**

- Roedd 52% o ymwelwyr yn dod o Gymru, sef 77% o ymwelwyr dydd.
- Mae 40% yn dod o Loegr, sy'n cyfrif am chwarter o'r ymwelwyr dydd (23%) a 70% o ymwelwyr sy'n aros. Daw'r ymwelwyr o Loegr yn bennaf o'r De-orllewin (31%), De-ddwyrain (27%), Gorllewin Canolbarth Lloegr (14%), a Llundain (13%).
- Mae 7% o dramor, sy'n gwneud 15% o ymwelwyr sy'n aros. Maent yn dod o ardaloedd sy'n adlewyrchu gweithgaredd marchnata, gan gynnwys yr Almaen (17%), UDA (15%), yr Iseldiroedd (13%), Ffrainc (11%), Sbaen (8%) ac Awstralia/Seland Newydd (7%).

**Mae'r rhan fwyaf yn dod o Bowys, Caerdydd ac Abertawe**

- Mae 18% sy'n dod o Gymru yn dod o Bowys, 13% o Gaerdydd a 10% o Abertawe. Cymharol fach yw'r niferoedd sy'n dod o siroedd cyfagos.

## Gwariant ymwelwyr a maint grwpiau

**Mae ymwelwyr sy'n aros yn y parc yn gwario mwy**

- Yn nodweddiadol, gwariodd ymwelwyr sy'n aros tua £270 ar lety, ond mwy os oeddent yn aros y tu allan i'r Parc (£313) nag os oeddent yn aros o fewn y Parc (£219).
- Mae'r rheiny sy'n aros yn y Parc yn gwario mwy bob dydd ar fwyd a diod (£67) na'r rheiny sy'n aros y tu allan (£52), ac mae hyn yn llawer uwch na gwariant pobl leol (£13) neu ymwelwyr dydd (£14).
- Maint cyfartalog grwpiau yw 3.2 o bobl, sy'n uwch ar gyfer ymwelwyr sy'n aros (3.4) o'i gymharu â phobl leol (2.8) ac ymwelwyr dydd (3.0).

## Cynllunio a chael mynediad at wybodaeth

**Gwybodaeth flaenorol a gwefannau a ddefnyddir fwyaf i gynllunio ymweliadau**

- Mae dwy ran o dair yn defnyddio gwybodaeth sydd eisoes yn bodoli er mwyn cynllunio eu taith. Gwefannau yw'r ffynhonnell ail fwyaf poblogaidd. Mae ymwelwyr sy'n aros yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau all-lein ac ar-lein, gan gynnwys arweinlyfrau, Canolfannau Croeso a chanllawiau i ymwelwyr.
- Mae'r rhan fwyaf yn cynnal ymchwiliadau cyffredinol ar y we neu'n defnyddio'r wefan gyrchfan. Mae eraill yn defnyddio gwefannau llety neu Croeso Cymru.

**Mae llawer o bobl nad ydynt yn chwilio am wybodaeth yn ystod ymweliad – ffonau clyfar, mapiau ac unedau GPS sydd fwyaf poblogaidd**

- Mae dwy ran o bump nad ydynt yn defnyddio gwybodaeth i ymwelwyr yn ystod ymweliad, ac mae hynny'n uwch hyd yn oed ar gyfer pobl leol. Pan fyddant yn chwilio am wybodaeth, maent yn defnyddio ffonau clyfar (30%), mapiau OS (29%), unedau GPS (21%), mapiau ffyrdd (16%) ac arweinlyfrau (11%). Ymwelwyr sy'n aros sydd fwyaf tebygol o chwilio am wybodaeth yn ystod ymweliad.

## Gweithgareddau ymwelwyr yn ystod y daith

**Mae ymwelwyr yn hoffi gweld golygfeydd, ymlacio a cherdded**

- Mae bron i hanner yn mwynhau gwylio golygfeydd cyffredinol neu ymlacio. Mae tua thri allan o bob deg yn cerdded ar lefel uchel neu isel. Mae cerdded ar lefel uchel yn llai poblogaidd gyda phobl leol. Mae chwarter yn bwyta allan neu'n ymweld â thref neu bentref. Mae ymwelwyr sy'n aros yn fwy tebygol o fwyta allan nag ymwelwyr dydd.

**Aberhonddu a Storey Arms yw'r mannau mwyaf poblogaidd**

- Mae ymwelwyr yn mynd i amrywiaeth o leoliadau yn y Parc. Aeth 23% o ymwelwyr i Aberhonddu ac 21% i ardal Storey Arms/Pen y Fan. Maen nhw hefyd yn mynd y tu allan i Fannau Brycheiniog (12%), i’r Fenni (10%) a'r Gelli Gandryll (10%). Gwnaeth llai na 10% ymweld â safleoedd eraill o gwmpas y Parc.

## Boddhad a chanfyddiadau ymwelwyr

**Cyfraddau boddhad uchel ar gyfer y Parc**

- Dywedodd 85% o ymwelwyr fod eu hymweliad â'r Parc yn 'dda iawn' ac 13% yn 'dda'. Ni chafwyd yr un radd negyddol.
- Mae'r holl wasanaethau cwsmeriaid yn cael eu graddio'n dda yn gyffredinol mewn amrywiaeth o gyfleusterau, er mai llety, atyniadau i

ymwelwyr a bwytai sydd â'r sgôr uchaf. Dim ond ychydig o bobl sy’n mynegi barn negyddol am y gwasanaeth cwsmeriaid, ond dywed 4% fod y siopau yn wael/wael iawn a dywed 13% eu bod yn ganolig.

**Mae'r rhan fwyaf yn debygol o ddychwelyd, ond mae'r rhai sy'n ymweld am y tro cyntaf ychydig yn llai ymroddedig**

- Dywed 87% eu bod yn debygol iawn o ymweld â'r ardal eto, ac mae hynny'n gostwng i 64% ar gyfer ymwelwyr tro cyntaf, ac mae'r rhan fwyaf o'r gweddill yn eithaf tebygol o ddychwelyd.

**Argraff gadarnhaol iawn o'r ardal gyda rhai meysydd i'w gwella**

- Y dirwedd, harddwch ac amgylchedd heb ei ddifetha yw'r hyn mae ymwelwyr yn eu hoffi mwyaf.
- Mae'r rhan fwyaf o'r farn bod y Parc yn cael gofal da, yn cynnig gwerth da am arian, a bod gwybodaeth yn hawdd i'w chyrchu.
- Dim ond ychydig o bobl sy’n awgrymu gwelliannau, ond mae’r rhain yn cynnwys darpariaeth ar gyfer toiledau, arwyddion a gwybodaeth, gwaith cynnal a chadw cyffredinol, mannau parcio, amwynderau a chysylltedd.
- Byddai dwy ran o bump yn ystyried rhoi o'u hamser neu arian i helpu'r Parc.

# 2. Cyflwyniad a Chefndir

## Cefndir Arolwg

2.1 Ym mis Rhagfyr 2015, fe gomisiynwyd Strategic Research and Insight Ltd (SRI), a elwir ar y pryd yn Strategic Marketing, gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (APCBB) i gynnal arolwg o ymwelwyr â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

2.2 Roedd yr astudiaeth yn ofynnol i ddeall yn well sut profiad ymwelwyr o'r Parc Cenedlaethol, i ble maen nhw'n mynd a beth maen nhw'n ei wneud. Gwybodaeth gyfyngedig ynghylch ymwelwyr â'r ardal a ddarparodd arolygon blaenorol, ynghylch ymddygiad a nodweddion ymwelwyr, yn yr haf yn unig, gyda sampl o faint annigonol ar gyfer dadansoddi is-grwpiau, ac nid oeddent yn rhoi digon o wybodaeth am ymwelwyr undydd, sy'n rhan fawr o economi ymwelwyr yr ardal.

2.3 Yn y cyd-destun hwn, roedd gofyn creu tystiolaeth gadarn a manwl fel sail i'r canlynol:

- Cynllun Rheoli Ymwelwyr
- Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol
- Strategaeth Dwristiaeth Gynaliadwy

## Amcanion Ymchwil

2.4 Y prif amcanion yr ymchwil oedd:

- Casglu data i ddeall nodweddion, ymddygiad ac agweddau ymwelwyr â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – gan gynnwys trigolion, lle bo hynny'n briodol
- Casglu data drwy gydol y flwyddyn ymwelwyr 2016-17
- Casglu data o leoliadau a chyrchfannau amrywiol ar draws y Parc Cenedlaethol – nid yr ardaloedd poblogaidd yn unig; gan gynnwys manylion am y tywydd yn ystod yr ymweliad
- Dull y gellid ei ailadrodd i roi meincnod ar gyfer arolygon yn y dyfodol
- Casglu data y mae modd ei ddefnyddio i ddilysu a rhannu gwybodaeth ynghylch dibynadwyedd setiau data eraill e.e. triongli, cymhariaeth
- Casglu data i gefnogi gofynion adrodd yr APC yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

# 3. Methodoleg

## Dull yr Arolwg

### Arolygon cyfredol wyneb yn wyneb ac ar-lein

3.1 Er mwyn cyflawni sampl cytbwys, eang ar draws y Parc Cenedlaethol, dros gyfnod o flwyddyn, ac er mwyn bodloni'r gofynion gwybodaeth helaeth, cynhaliwyd yr arolwg yn bennaf drwy gyfweliadau wyneb yn wyneb a ategwyd ag arolwg ar-lein. Rhedodd y dulliau hyn yn gyfredol yn ystod y rhan fwyaf o'r cyfnod arolygu.

| Dull | Cyfweliadau | % |
|---|---|---|
| Gwaith maes wyneb yn wyneb | 1256 | 74% |
| Ar-lein | 451 | 26% |
| **Cyfanswm** | **1707** | **100%** |

3.2 Wyneb yn wyneb oedd y prif ddull, gan gyfrif am dri chwarter o'r cyfweliadau. Roedd hyn yn caniatáu dosbarthiad eang o gyfweliadau mewn pwyntiau samplu penodol drwy gydol y parc, yn hytrach na lleoliadau poblogaidd yn unig.

3.3 Arolygon ar-lein oedd y dull eilaidd a oedd yn cyfrif am tua chwarter o'r canlyniadau. Nid oedd unrhyw sicrwydd ynghylch y swm neu'r samplu gyda'r dull hwn.

3.4 Gyda'i gilydd, roedd y dulliau hyn yn caniatáu casglu data, drwy'r flwyddyn, yn ystod cyfnodau prysur a distaw.

3.5 Yn gyfan gwbl, cafwyd dros 1700 o ymatebion a ddarparodd ddata cadarn iawn. Caiff y manylion hyn eu darparu'n nes ymlaen yn yr adran hon.

### Arolwg wyneb yn wyneb

3.6 Cynhaliwyd y gwaith maes wyneb yn wyneb ar draws y Parc gyda thrigolion ac ymwelwyr. Cynhaliwyd cyfweliadau peilot ym mis Chwefror 2016 gyda sifftiau'n cael eu cynnal tan fis Rhagfyr 2016.

3.7 Cynhaliwyd pob cyfweliad yn electronig ar lechi, ac roeddent ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

### Ar-lein

3.8 Yn dilyn peilot yr arolwg wyneb yn wyneb, aeth y fersiwn ar-lein yn fyw ym mis Mawrth 2016 gan redeg tan ddechrau Mawrth 2017.

3.9 Hyrwyddwyd y ddolen â’r arolwg gan APCBB, gan bartneriaid yr arolwg, a'r fasnach. Yn nodweddiadol, gwnaed hyn drwy roi negeseuon rheolaidd ar gyfryngau cymdeithasol. Dosbarthwyd rhai ‘cardiau busnes’ oedd wedi eu hargraffu yn ystod cyfnod olaf y prosiect i hyrwyddo'r ddolen â’r arolwg.

3.10 Defnyddiwyd raffl chwarterol fel cymhelliant i annog ymateb gyda'r enillydd yn derbyn talebau siopa.

## Lleoliadau Samplo a Chyfweliadau a Gyflawnwyd

3.11 Un o amcanion allweddol y prosiect hwn oedd cael adborth gan ymwelwyr ar draws y Parc Cenedlaethol yn hytrach na'r lleoliadau ‘pot mêl’ yn unig. I gyflawni hyn, gweithiodd SRI gydag APCBB i nodi pwyntiau samplu addas ar draws y Parc gan ystyried nifer yr ymwelwyr tebygol, cysgod a diogelwch.

3.12 Mae’r map isod yn dangos sut mae'r 20 pwynt samplu wedi eu gwasgaru ar draws y Parc Cenedlaethol:





3.13 Dengys y lleoliadau cyfweld a nifer y cyfweliadau a gynhaliwyd, gan gynnwys ymatebion ar-lein isod. Cafodd Storey Arms hwb er mwyn cynnal o leiaf 200 o gyfweliadau (a ariannwyd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol):

| Lleoliad y cyfweliad | Cyfweliadau | % |
|---|---|---|
| Ar-lein | 451 | 26% |
| Storey Arms (maes parcio Pont ar Daf) | 210 | 12% |
| Llanddewi Nant Hodni | 75 | 4% |
| Y Gelli Gandryll | 67 | 4% |
| Canol y Dref Aberhonddu | 63 | 4% |
| Llangors | 63 | 4% |
| Pwll Pen-ffordd-goch | 61 | 4% |
| Parc Gwledig Craig Y Nos | 58 | 3% |
| Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol | 57 | 3% |
| Talybont | 57 | 3% |
| Y Fenni | 55 | 3% |
| Talgarth | 55 | 3% |
| Llanymddyfri | 54 | 3% |

| Lleoliad y cyfweliad | Cyfweliadau | % |
|---|---|---|
| Crucywel | 53 | 3% |
| Gwaith Powdr | 52 | 3% |
| Rhaeadrau: Cwm Porth | 51 | 3% |
| Torpantau | 50 | 3% |
| Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog: Glanfa Goetre | 49 | 3% |
| Carreg Cennen | 46 | 3% |
| Penybegwn | 44 | 3% |
| Pengenffordd | 36 | 2% |

## Dosraniad Cyfweliadau

3.14 Gan fod yr arolwg yn rhedeg dros gyfnod o flwyddyn, caiff mis y cyfweliad ei nodi (neu fis yr ymweliad ar gyfer atebwyr ar-lein). Mae dosbarthiad y cyfweliadau fesul mis fel a ganlyn:




Maint y sampl: 1690

3.15 Defnyddiwyd hyn ar gyfer dadansoddi ymatebion yn ôl y tymor a'r sylwadau ar unrhyw wahaniaethau nodedig sy'n cael eu cynnwys drwy gydol yr adroddiad. At ddibenion cyfeirio, rydym wedi defnyddio diffiniadau sector ar gyfer y tymhorau (mae'r misoedd yn gynhwysol):

- Gwanwyn (Mawrth - Mai)
- Haf (Mehefin - Awst)
- Hydref (Medi - Tachwedd)
- Gaeaf (Rhagfyr - Chwefror)

3.16 Nodwyd gwybodaeth ychwanegol am amgylchiadau cyfweliadau gan y cyfwelwyr maes, ac mewn rhai achosion gan ymatebwyr ar-lein, gan gynnwys y tywydd a'r dyddiau cyfweld. Caiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn yr Atodiadau Technegol.

## Dilysrwydd ystadegol

3.17 Gan mai arolwg yw hwn yn hytrach na chyfrifiad, mae gan y nifer o ymatebwyr sydd wedi cymryd rhan effaith fawr ar ddibynadwyedd y data.

3.18 Gyda thros 1700 o ymatebion, mae'r set data'n gyfoethog ar gyfer yr astudiaeth hon gan arwain at gyfwng hyder (CI) o +/- 2.4% sy'n gadarn iawn o ran safonau ymchwil i'r farchnad sy'n arfer pennu CI o 5% neu lai.

3.19 Golyga hyn, yn y sefyllfa waethaf a allai godi, petai 50% o'r ymatebwyr yn rhoi ymateb penodol, gallwn fod yn ‘sicr’ bod y gwir ffigwr rhwng 47.6% a 52.4%.

## Strwythur yr adroddiad


3.20 Mae'r adroddiad wedi ei strwythuro yn ôl y pynciau a'r themâu a drafodir yn yr holiadur yn hytrach na fesul cwestiwn.

3.21 Mae'r ffigurau sylfaenol yn amrywio yn ôl y grŵp penodol o ymatebwyr y gofynnwyd y cwestiwn iddynt. Gofynnwyd rhai cwestiynau i ymatebwyr ar-lein yn unig, rhai i ymatebwyr wyneb yn wyneb yn unig, a rhai i ymwelwyr y Storey Arms yn unig. Cyfeirir at hyn o dan y siart neu dabl perthnasol drwy gydol yr adroddiad.

3.22 Gyda llawer o gwestiynau, roedd y cyfranogwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb, ac yn yr achosion hyn, ni fydd y ffigurau'n gwneud cyfanswm o 100%. Mewn rhai achosion, oherwydd talgrynnu, ni fydd cyfanswm y cwestiynau'n dod i gyfanswm o 100% yn union chwaith.

# 4. Mathau o Ymwelwyr a Chymhellion

## Prif reswm dros y daith




Maint y sampl: 1704

4.1 Ymwelwyr undydd o'u cartref oedd dros draean o'r ymatebwyr (36%), ac wrth ychwanegu'r rhai sy'n byw’n lleol, mae hyn yn codi i dros hanner (55%).

4.2 Ymwelwyr unigol o'u cartref (42%) a rhai sy'n ymweld â ffrindiau (43%) oedd yr ymwelwyr undydd amlaf. Ond, roedd ymweliadau undydd yn llai nodweddiadol ymhlith teuluoedd gyda phlant (30%).

4.3 Mae tua thri allan o bob deg (29%) yn ymwelwyr sy'n aros yn y Parc Cenedlaethol, ond mae hyn yn uwch ar gyfer parau (35%) a theuluoedd gyda phlant (35%). Y rhai sy'n ymweld ar eu pennau eu hunain yw'r lleiaf tebygol o fod yn ymwelwyr sy'n aros yn y parc (13%).

4.4 Trwy gydol yr adroddiad, rydym wedi grwpio'r ymatebwyr hyn yn dri chategori o ymwelwyr: ‘ymwelwyr sy'n aros’, ‘ymwelwyr undydd’ a ‘phobl leol’. Mae'n werth nodi nad yw'r rhai sy'n ystyried eu hunain fel pobl leol wedi eu cyfyngu i breswylwyr o fewn y parc a'u bod nhw'n diffinio eu hunain.

## Cymhellion dros ddewis Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

**Mae'r olygfa, cerdded ac ymweliadau blaenorol yn gymhelliant cryf ar gyfer taith**

4.5 Pan ofynnwyd beth oedd y prif gymhellion dros ddewis y Parc Cenedlaethol ar gyfer ymweliad, golygfeydd a harddwch yr ardal yw'r ffactorau a gafodd eu crybwyll amlaf.

4.6 Mae'r tabl isod yn dangos yr atebion a roddwyd gan 5% neu fwy o'r rhai a holwyd. Roedd yr ymatebwyr yn gallu rhoi mwy nag un ateb o restr a oedd wedi ei godio ymlaen llaw.

| Prif resymau dros ddewis PCBB | % |
|---|---|
| Golygfeydd prydferth / cefn gwlad | 59% |
| Cerdded yn yr ucheldiroedd | 33% |
| Wedi ymweld o'r blaen / wedi mwynhau ymweliad blaenorol | 28% |
| Heddwch a thawelwch / ymlacio | 25% |
| Cerdded yn yr iseldiroedd | 23% |
| I fod yn iach / i gael ymarfer corff | 21% |
| Edrych ar olygfeydd | 19% |
| Yn hoffi'r ardal / datganiad positif cyffredinol | 19% |
| I ymgymryd â her | 17% |
| Ymweld â safleoedd treftadaeth | 10% |
| Ymweld ag atyniadau | 9% |
| Bywyd gwyllt / gwylio adar | 8% |
| Cerdded ar hyd y gamlas | 8% |
| Cwrdd â ffrindiau / teulu | 7% |
| Ymweld â ffrindiau / theulu | 7% |
| Amrywiaeth dda o bethau i'w gwneud i oedolion | 6% |
| Erioed wedi bod / wedi bod eisiau ymweld erioed | 5% |

Maint y sampl: 1706

4.7 Harddwch yr ardal yw'r cymhelliant mwyaf i ymweld, gyda thua chwech allan o bob deg ymatebwr (59%) yn crybwyll hyn. Ymwelwyr o dramor (74%) a'r rhai o Loegr (65%) sy'n rhoi'r rheswm hwn amlaf o'u cymharu â thua hanner y rhai o Gymru (52%).

4.8 Mae gweithgareddau'n ddeniadol hefyd, a cherdded yn yr ucheldir yw'r mwyaf poblogaidd (33%) yn enwedig ymysg ymwelwyr sy'n aros (36%) ac ymwelwyr undydd (35%), ond yn llai felly ymysg pobl leol (24%).

4.9 Mae profiad blaenorol o'r ardal yn dyniad mawr hefyd, gyda dros chwarter (28%) yn nodi hyn fel un o'r rhesymau dros ddewis y parc.

4.10 Caiff ymweliadau eu cymell hefyd gan les ac iechyd, gydag un o bob pump yn awgrymu eu bod nhw'n ymweld 'i fod yn iach ac i gael rhywfaint o ymarfer corff' (21%). Dyma'r mwyaf poblogaidd ymysg ymwelwyr undydd (27%).

**Mwynhau'r awyr agored, ymweld â'r Parc Cenedlaethol a'r effaith ar les sy'n fwyaf dylanwadol**

4.11 Nododd ymatebwyr y ffactor a ddylanwadodd **fwyaf** ar eu penderfyniad i ymweld â'r Parc Cenedlaethol, yn seiliedig ar restr a ysgogwyd:

| Y ffactor fwyaf dylanwadol ar y penderfyniad i ymweld â PCBB (Ysgogwyd) | % |
|---|---|
| I fwynhau'r awyr agored a'r awyr iach | 61% |
| Eisiau ymweld â'r Parc Cenedlaethol yn benodol | 42% |
| I wella fy synnwyr o les/iechyd meddwl | 41% |
| I wella fy iechyd corfforol | 37% |
| Cyfle gwych i weld bywyd gwyllt | 31% |
| Digonedd o atyniadau a gweithgareddau awyr agored | 25% |
| Diwrnod allan/ymweliad am arian rhesymol | 24% |
| I gael profi hanes a diwylliant | 23% |
| Ei weithgareddau cadwraeth | 19% |
| Oherwydd argymhelliad | 13% |
| Arall | 16% |

Maint y sampl: 1696

4.12 Mynd allan i'r awyr iach yw'r ffactor mwyaf dylanwadol wrth benderfynu ymweld ar gyfer chwech allan o bob deg ymwelydd (61%). Mae'r ffactor hwn hyd yn oed yn uwch ymysg ymwelwyr undydd (67%) ac ymysg ymwelwyr sydd wedi ymweld â'r ardal ddwywaith neu fwy o'r blaen (66%). Mae'r dylanwad hwn yr un mor gryf ymysg ymwelwyr o Gymru ac o Loegr (62-63%) ond yn llai ymysg ymwelwyr tramor (44%).

4.13 Atyniad y Parc Cenedlaethol yw'r ffactor penodol pwysicaf ar gyfer dwy ran o bump (42%), ond ymwelwyr tramor a gaiff eu hysgogi fwyaf gan hyn (60%) ac ymwelwyr sy'n aros (49%).

4.14 Mae gwella lles ac iechyd meddwl yn allweddol ar gyfer dwy ran o bump (42%), ar gyfer tua hanner yr ymwelwyr undydd (48%) a chyfran debyg o bobl leol (45%). Mae hyn yn ffactor cryfach ymysg ymwelwyr y DU nag ymysg ymwelwyr tramor (15%).

4.15 Mae gan wella iechyd corfforol ychydig yn llai o ddylanwad ar y penderfyniad na sydd gan les meddyliol, ond mae'n ffactor allweddol o hyd ar gyfer mwy na thraean o'r ymwelwyr (37%).

4.16 Yn ddiddorol, mae'r rhai sy'n ymweld yn ystod y gwanwyn yn llawer mwy tebygol o gael eu dylanwadu gan ffactorau budd iechyd corfforol a meddyliol (70% a 77% yn y drefn honno), o'u cymharu â'r rhai sy'n ymweld yn ystod yr haf (29% yr un). Caiff ymwelwyr y gaeaf hefyd eu hysgogi'n fwy gan wella lles (62%).

4.17 Mae yna rywfaint o amrywiaeth tymhorol ar gyfer y rhai sydd wedi eu dylanwadu gan edrych ar fywyd gwyllt. Fe wnaeth ymwelwyr y gwanwyn (72%) ac ymwelwyr y gaeaf (45%) sôn am hyn yn amlach nag ymwelwyr yr haf (21%) neu ymwelwyr yr hydref (24%).

4.18 Mae gweithgareddau cadwraeth yn fwy dylanwadol ymhlith pobl leol (24%) ac ymwelwyr yr hydref (46%).

4.19 Mae dod o hyd i werth da am arian yn ffactor ychydig yn fwy ar gyfer pobl leol (29%) ac ar gyfer ymwelwyr undydd (27%), ond yn bennaf oll ar gyfer ymwelwyr y gwanwyn (63%).

# 5. Proffil Ymwelwyr


## Demograffeg

5.1 Casglwyd amrediad o wybodaeth ddemograffig oddi wrth gyfranogwyr i ddeall mwy am y rhai sy'n defnyddio'r Parc Cenedlaethol.

**Oedran y Grŵp**

5.2 Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi manylion am oedran **aelodau'r grŵp** yn hytrach na'u hoedran eu hunain yn unig.

5.3 Nid oes yna un oedran sy'n goruchafu poblogaeth yr ymwelwyr. Mae yna amrywiaeth o oedrannau gyda phobl o dan 25 yn gwneud 28%, mae'r oedran 25-44 yn cyfrif am 31%, gyda 30% arall yn cynnwys yr oedran 44-64. Mae pobl dros 65 yn cyfrif am 11% o'r ymwelwyr.




Maint y sampl: 1653 o ymatebwyr


5.4 Mae'r tabl canlynol yn dangos y proffil oedran wedi'i ailgymhwyso i gymharu â chanlyniadau Arolwg Ymwelwyr Cymru 2016. Dylid nodi bod yr arolwg cenedlaethol yn seiliedig ar oedran yr **ymatebydd** yn hytrach na'r **grŵp** ymwelwyr llawn, ac nid yw'n cynnwys plant dan 15 oed.

5.5 Mae proffil ymwelwyr dydd â Bannau Brycheiniog yn eithaf tebyg i broffil ymwelwyr nodweddiadol â Chymru, ond gyda fymryn yn llai o ymwelwyr dros 55 oed. Mae ymwelwyr sy'n aros ym Mannau Brycheiniog, fodd bynnag, yn fwy tebygol o lawer o fod yn y grŵp oedran 16 – 34 nag ar gyfer Cymru gyfan, ac yn llai tebygol o lawer o fod dros 55.

| Arolwg ardal a math o ymwelydd | 16-34 oed | 35-54 oed | 55+oed |
|---|---|---|---|
| Ymwelwyr Dydd *(Bannau Brycheiniog)* | 26% | 41% | 33% |
| Ymwelwyr Dydd *(Cymru)* | 23% | 39% | 39% |
| Ymwelwyr sy'n Aros *(Bannau Brycheiniog)* | 36% | 40% | 24% |
| Ymwelwyr sy'n Aros *(Cymru)* | 18% | 41% | 40% |

## Rhywedd y Grŵp

5.6 Unwaith eto, mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar **aelodau'r grŵp** yn hytrach nag ar yr ymatebwyr yn unig. Roedd ychydig dros hanner yr ymwelwyr yn wrywod (53%) a 47% yn fenywod.




Maint y sampl: 1694 o ymatebwyr

## Grŵp cymdeithasol

5.7 Darparodd yr ymatebwyr fanylion am alwedigaeth y prif enillydd incwm o fewn y cartref. Cafodd y rhain eu codio i grwpiau cymdeithasol yn unol â meini prawf safonol y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad.

5.8 Mae bron i hanner yr ymatebwyr (51%) yng ngrŵp cymdeithasol AB, mae 29% yng ngrŵp C1, mae 13% yng ngrŵp C2, ac mae 7% yng ngrŵp DE. Mae hyn fymryn yn uwch nag yn Arolwg Ymwelwyr Cymru 2016, lle mae grwpiau ABC1 yn cyfateb â 72% o ymwelwyr sy'n aros, a 65% o ymwelwyr dydd. Mae disgrifiadau graddfeydd cymdeithasol a'r ystadegau isod ar gyfer Cymru a Lloegr yn dangos y gogwydd ym mhroffil yr ymwelwyr o'i gymharu â graddfa gymdeithasol gyffredinol y boblogaeth:

| Graddfa gymdeithasol | Disgrifiad | % y boblogaeth yng Nghymru a Lloegr |
|---|---|---|
| AB | Galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol uwch a chanolradd | 23% |
| C1 | Galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol ar lefel goruchwylio, clercol ac iau | 30% |
| C2 | Galwedigaethau llaw medrus | 22% |
| DE | Galwedigaethau llaw lled-fedrus a heb fedrau, di-waith, a galwedigaethau ar y radd isaf | 25% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, ONS

### Perchnogion cŵn

5.9 Roedd gan ychydig o dan chwarter yr ymatebwyr gi gyda nhw (23%). Roedd hyn uchaf ar gyfer pobl leol (30%), yn unol â'r cyfartaledd ar gyfer ymwelwyr undydd (25%) ac o gwmpas un o bob pump ar gyfer ymwelwyr sy'n aros (19%).

5.10 O ran math o grŵp, teuluoedd heb blant (30%) neu gyda phlant (29%) oedd y mwyaf tebygol o ymweld â'r parc gyda ci, ond ffrindiau (17%) a grwpiau wedi eu trefnu (16%) oedd y lleiaf tebygol.

5.11 O ran tarddiad ymwelwyr, roedd gan 29% o ymwelwyr o Gymru gi gyda nhw, a 19% o ymwelwyr o Loegr.


### Nodweddion demograffig eraill

5.12 Gofynnwyd am ragor o wybodaeth ddemograffig yn ystod yr arolwg. Ceir crynodeb isod, gyda manylion llawn yn yr Atodiad Technegol:

- **Grwpiau ethnig yr ymatebwyr:**
  - Roedd 89.1% o gefndiroedd Gwyn-Prydeinig; 0.6% Gwyn-Gwyddelig; 0.4% Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig Gwyn; 7.3% o gefndiroedd gwyn eraill
  - Roedd 1.7% o unrhyw grŵp ethnig arall gan gynnwys Asiaidd, Du Affricanaidd, Du Caribïaidd, Arabaidd, neu gefndir ethnig lluosog.
  - Roedd yn well gan 0.9% beidio â dweud
- **Statws gweithio:**
  - 61% gwaith amser llawn (30 awr+)
  - 15% gwaith rhan amser (hyd at 29 awr)
  - 12% wedi ymddeol
  - 4% mewn addysg amser llawn
  - 2% yn edrych ar ôl y cartref
  - 1% yn ofalwyr amser llawn
- **Gallu yn yr iaith Gymraeg:**
  - Roedd 5% o'r ymatebwyr yn siarad Cymraeg yn rhugl neu uwch
  - Roedd 4% yn ganolradd
  - Roedd gan 15% rywfaint o allu cyfyngedig
  - Roedd 70% yn ddi-gymraeg
- **Amodau iechyd ac amhariadau**
  - Dywedodd 13% fod gan rywun o fewn eu grŵp gyflwr iechyd sy'n effeithio ar eu bywyd dyddiol.

## Tarddiad ymwelwyr

### Mae dros hanner ymwelwyr â'r Parc Cenedlaethol yn dod o Gymru, daw dwy ran o bump o Loegr




Maint y sampl: 1707

5.13 Mae ychydig dros hanner yr ymwelwyr a gyfwelwyd yn dod o Gymru (52%); maen nhw hefyd yn cyfrif am dri chwarter yr ymwelwyr undydd (77%) ac 14% o'r ymwelwyr sy'n aros.

5.14 Mae ymwelwyr o Loegr yn cyfrif am ddau o bob pum ymatebwr (40%), 23% o ymwelwyr undydd a 70% o ymwelwyr sy'n aros.

5.15 Mae ymwelwyr tramor yn cyfrif am tua 7% o'r sampl yn gyffredinol ac yn cyfrif am 15% o'r ymwelwyr sy'n aros.

### Mae'r ymwelwyr o Loegr yn hanu o'r De-orllewin a'r De-ddwyrain

5.16 Daw'r ymwelwyr o Loegr yn bennaf o'r De-orllewin (31%), De-ddwyrain (27%), Gorllewin Canolbarth Lloegr (14%), Llundain Fwyaf (13), Dwyrain Canolbarth Lloegr (5%), Dwyrain Anglia (4%), Y Gogledd-orllewin (3%) ac 1% yr un o Swydd Efrog a'r Hwmber a'r Gogledd-ddwyrain.

### Daw'r ymwelwyr tramor o Ewrop yn bennaf, ond hefyd o UDA ac Awstralia

5.17 Y gwledydd gwreiddiol mwyaf poblogaidd ar gyfer ymwelwyr tramor yw'r Almaen (17%), UDA (15%), Yr Iseldiroedd (13%), Ffrainc (11%), Sbaen (8%) a 7% o Awstralia/Seland Newydd. Ceir manylion llawn ynghylch y gwledydd gwreiddiol eraill yn yr Atodiadau Technegol.

**Mae'r Parc Cenedlaethol yn fwyaf poblogaidd gyda thrigolion Powys, Caerdydd ac Abertawe**

5.18 Wrth ystyried ei leoliad, nid yw'n syndod mai trigolion Powys sy'n cael eu denu fwyaf at y Parc Cenedlaethol gan gyfrif am bron i un o bob pump o'r rhai sy'n dod o Gymru (18%).

5.19 Er nad yw Caerdydd yn sir gyffiniol, mae'n cyfrif am yr ail nifer uchaf o ymwelwyr o Gymru (13%). O Gaerdydd y daw'r nifer fwyaf o ymwelwyr undydd (18%) a'r uchaf ar y cyd â Sir Benfro ar gyfer ymwelwyr sy'n aros (13%). Mae'r pellter o'r Parc Cenedlaethol yn darparu cyfle i ddenu poblogaeth fawr o'r brif ddinas ar gyfer tripiau undydd a thros nos.

5.20 Caiff trigolion Abertawe hefyd eu denu'n arbennig at yr ardal (10%) ac o'u cyfuno â Chastell-nedd Port Talbot gyffiniol, maent yn cyfrif am 16% o'r ymwelwyr. Mae Abertawe'n darparu 14% o'r ymwelwyr undydd.

5.21 Mae cyfran yr ymwelwyr o Gymru sy'n dod o siroedd cyffiniol yn gymharol isel - Merthyr Tudful (4%), Blaenau Gwent (3%) a Chaerffili (3%).


| Sir Wreiddiol yng Nghymru | % |
|---|---|
| Powys | 18% |
| Caerdydd | 13% |
| Abertawe | 10% |
| Sir Fynwy | 8% |
| Rhondda Cynon Taf | 8% |
| Castell-nedd Port Talbot | 6% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 6% |
| Casnewydd | 5% |
| Sir Gaerfyrddin | 4% |
| Merthyr Tudful | 4% |
| Torfaen | 4% |
| Blaenau Gwent | 3% |
| Caerffili | 3% |
| Bro Morgannwg | 3% |
| Sir Benfro | 2% |
| Gwynedd | 1% |
| Wrecsam | 1% |
| Ceredigion | 1% |
| Conwy, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Ynys Môn | <1% yr un |

Maint y sampl: 893 yr ymwelwyr o Gymru

# 6. Cynllunio, Cyrchu Gwybodaeth a Hanes Ymweliadau

## Hanes Ymweliadau

**Mae hanner yr ymwelwyr wedi ymweld chwe gwaith neu fwy ac mae chwarter yn newydd i'r ardal**




Maint y sampl: 1701


6.1 Mae bron i naw allan o bob deg person lleol (86%) wedi ymweld chwe gwaith neu fwy o'u cymharu â bron i ddau draean o ymwelwyr undydd (62%) ac ychydig yn llai na chwarter o'r ymwelwyr sy'n aros (23%).

6.2 Ymwelwyr sy'n aros (45%) yw'r rhai sydd yn yr ardal am y tro cyntaf rhan amlaf, o gymharu â chwarter yn gyffredinol. Mae dros draean yr ymwelwyr o Loegr (36%) yn ymweld am y tro cyntaf o gymharu â 85% o dramor a dim ond 8% o Gymru.

6.3 Y gaeaf sy'n gweld y gyfran isaf o ymwelwyr am y tro cyntaf (13%) pan fo bron i saith allan o bob deg wedi ymweld chwe gwaith neu fwy yn y gorffennol.

## Cynllunio'r ymweliad

### Gwybodaeth flaenorol a gwefannau sy'n cael eu defnyddio fwyaf i gynllunio ymweliadau




Maint y sampl: 1703

6.4 Gwybodaeth leol un ai drwy fyw'n lleol neu drwy ymweliadau blaenorol sy'n cael ei defnyddio gan y rhan fwyaf o ymwelwyr (64%) i gynllunio ymweliad â'r Parc Cenedlaethol, yn enwedig gan bobl leol ac ymwelwyr undydd.

6.5 Gwefannau yw'r dull mwyaf poblogaidd ond un ar gyfer cynllunio ymweliad gydag un o bob pump (21%) yn defnyddio adnoddau ar-lein, yn enwedig ymwelwyr sy'n aros (33%).

6.6 Defnyddir adnoddau all-lein eraill gan nifer gymharol fach o ymwelwyr, ond y rhan amlaf gan ymwelwyr sy'n aros, sy'n dal i gynrychioli nifer sylweddol o bobl.

**Defnyddir chwiliadau gwe cyffredinol fel arfer**

| Gwefannau a ddefnyddiwyd | % |
|---|---|
| Chwilio ar y we'n gyffredinol | 30% |
| Bannau Brycheiniog | 19% |
| Gwefannau llety | 12% |
| Croeso Cymru | 12% |
| Parciau Cenedlaethol (yn gyffredinol) | 4% |
| Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 4% |
| TripAdvisor | 4% |
| Gweithgaredd/Atyniad/Digwyddiad | 3% |
| APCBB | 1% |
| Ddim yn gwybod/methu cofio | 7% |
| Arall | 7% |

Maint y sampl: 338, ymatebwyr sy'n defnyddio gwefannau

6.7 Nid yw'n syndod mai chwiliadau gwe cyffredinol yw'r mwyaf poblogaidd a chrybwyllwyd Google a Google Maps gan y rhan fwyaf.


6.8 Crybwyllwyd y wefan gyrchfan www.breconbeacons.org.uk neu 'Bannau Brycheiniog' gan tua un o bob pump (19%).

6.9 Ychydig dros un o bob deg (12%) a grybwyllodd wefannau llety fel Booking.com, Airbnb, Brecon Beacon Cottages a darparwyr llety penodol eraill gan gynnwys gwefannau carafanau a gwersylla.

6.10 Crybwyllodd tua un o bob deg wefan (12%) Croeso Cymru'n benodol.

6.11 Roedd y rhai a ddywedodd gwefan 'arall' yn cyfeirio at safleoedd cyrchfannau lleol penodol fel Visit Crickhowell/Abergavenny/Hay-on-Wye, gwefannau tywydd, Arolwg Ordnans a safleoedd cerdded ymhlith eraill.

**Nid yw dau allan o bob pump yn cyrchu gwybodaeth yn ystod ymweliadau. Ffonau clyfar a mapiau sy'n cael eu defnyddio fwyaf fel arall**




Maint y sampl: 1704

6.12 Pobl leol sydd fwyaf tebygol o ddweud nad ydynt yn defnyddio unrhyw beth i gyrchu gwybodaeth yn ystod eu hymweliad (69%), ond hanner yr ymwelwyr undydd hefyd (49%). Mae hyn yn llawer llai tebygol ymysg ymwelwyr sy'n aros (19%).

6.13 Ymwelwyr sy'n aros sydd fwyaf tebygol o gyrchu gwybodaeth yn ystod eu hymweliad, waeth beth fo'r dull.

6.14 Mae'r rhai sy'n cyrchu gwybodaeth ymwelwyr yn gwneud hynny, amlaf, gyda ffôn clyfar, mapiau ac unedau GPS. Fe wnaeth 55% o ymwelwyr tramor gyrchu gwybodaeth gyda ffôn clyfar, sy'n fwy na'r rhai o Loegr (37%) a'r rhai o Gymru (22%). Mae'r gallu i gael signal da'n bwysig i hwyluso cyrchu gwybodaeth i ymwelwyr. Dylai adnoddau digidol gael eu hoptimeiddio hefyd ar gyfer ffonau clyfar, er mwyn rhoi'r mynediad gorau i wybodaeth ymwelwyr.

6.15 Mae cyhoeddiadau ac arweinlyfrau'n boblogaidd o hyd ymhlith un o bob deg ymatebydd (11%) yn gyffredinol ac ymhlith 16% o ymwelwyr sy'n aros.

# 7. Gweithgareddau Ymwelwyr a'r Amser a Dreuliwyd yn y Parc

## Beth mae ymwelwyr yn ei wneud?

**Mae bron i hanner yr ymwelwyr yn mwynhau gwylio golygfeydd cyffredinol/ymlacio; cerdded yw'r gweithgaredd mwyaf poblogaidd**

| Gweithgareddau a Wnaed | % |
|---|---|
| Gwylio golygfeydd cyffredinol/ymlacio | 45% |
| Cerdded – lefel uchel | 33% |
| Cerdded – lefel isel hyd at 2 awr | 31% |
| Cerdded – lefel isel dros 2 awr | 27% |
| Bwyta allan e.e. bar, bwyty, caffi/tafarn | 26% |
| Ymweld â thref neu bentref | 24% |
| Ffotograffiaeth | 18% |
| Ymweld ag atyniadau | 13% |
| Ymweld â safle hanesyddol neu dreftadaeth | 12% |
| Gwylio bywyd gwyllt/adar | 11% |
| Siopa (heblaw bwydydd) | 8% |
| Beicio | 6% |
| Ymweld â ffrindiau neu berthnasau | 6% |
| Mynd i ddigwyddiad lleol | 6% |
| Awyr dywyll/gwylio sêr | 5% |
| Ymarfer corff egnïol | 3% |
| Canŵio/caiacio | 3% |
| Teithio ar gwch camlas | 3% |
| Beicio mynydd | 3% |
| Gweithgareddau celfyddydol | 1% |
| Arall | 5% |


7.1 Gofynnwyd i ymwelwyr am y math o weithgareddau yr oeddent yn cymryd rhan ynddynt yn ystod eu taith. Mae bron i hanner yr ymwelwyr yn mwynhau gwylio golygfeydd cyffredinol ac ymlacio, yn enwedig ymwelwyr sy'n aros (56%) o gymharu â phobl leol (32%) neu ymwelwyr undydd (38%).

7.2 Mae cerdded ar lefel uchel yn llai poblogaidd gyda phobl leol (19%). Ymwelwyr undydd yw'r lleiaf tebygol o fwyta allan (20%) mewn cyferbyniad ag ymwelwyr sy'n aros (32%).

7.3 Mae ymweld â thref neu bentref yn fwy poblogaidd gydag ymwelwyr sy'n aros (35%) sy'n adlewyrchu'r ffaith, mae'n debyg, bod ganddynt fwy o amser i'w dreulio yn yr ardal a bod ganddynt fwy o gyfle i archwilio.

## A ydyn nhw'n defnyddio'r Parc Cenedlaethol ar gyfer ymarfer corff?

**Mae'r rhan fwyaf yn gwneud ymarfer corff ysgafn i gymedrol yn y Parc Cenedlaethol**




Maint y sampl: 447 (ymatebwyr ar-lein yn unig)

7.4 Dywedodd hanner yr ymatebwyr ar-lein eu bod nhw wedi gwneud ymarfer corff cymedrol yn y parc, gyda chyfran ychydig yn uwch ymysg ymwelwyr sy'n aros (54%) ac yn is ymysg pobl leol (44%). Fe wnaeth dros hanner yr ymwelwyr o Loegr ymarfer corff cymedrol (54%) o gymharu â 47% o'r ymwelwyr o Gymru.

7.5 Gwneir ymarfer corff egnïol yn fwy aml gan grwpiau sydd wedi eu trefnu (28%) ac ymwelwyr unigol (22%) o'u cymharu ag 13% yn gyffredinol. Mae pobl leol yn fwy tebygol o wneud ymarfer corff egnïol yn y Parc Cenedlaethol (19%) hefyd.


## I ble mae ymwelwyr yn mynd?

**Ymwelwyd ag Aberhonddu a Storey Arms gan un o bob pump neu fwy**

7.6 Er mwyn deall yn well sut mae'r parc yn cael ei ddefnyddio gan ymwelwyr, gofynnwyd i'r rhai a arolygwyd i ble aethon nhw yn ystod eu hymweliad.

7.7 Ceir golwg gyffredinol yn y map isod sy'n rhoi ymdeimlad o gyfran y rhai a arolygwyd a oedd yn ymweld â phob un o'r lleoliadau a amlygwyd. Sylwch y bydd hyn, yn rhannol, yn adlewyrchu'r lleoliadau gwaith maes a ddosrannwyd o amgylch y parc ac sy'n cynnwys sampl atgyfnerthol yn Storey Arms.

**Ble ydyn nhw'n ymweld?** - Map o'r lleoliadau a chafodd eu ymweld




7.8 Mae'r smotiau gwyrddion yn dangos y lleoliadau mwyaf poblogaidd y mae 20% neu fwy o ymatebwyr wedi ymweld â nhw. Aberhonddu (23%) a Storey Arms/Pen y Fan/Corn Du (21%) oedd y rhain. Mae'r smotiau gleision yn dangos lleoliadau y mae rhwng 10-19% wedi ymweld â nhw gan gynnwys y tu allan i Fannau Brycheiniog (12%), Y Fenni (10%) a'r Gelli Gandryll (10%).

7.9 Mae'r smotiau porffor yn dangos lleoliadau y dywedodd 5-9% o ymwelwyr eu bod nhw'n ymweld â nhw, gan gynnwys:

- Pontneddfechan, Rhaeadrau, ardal Ystradfellte (9%)
- Crucywel (8%)
- Y Ganolfan Fynydd (7%)

- Camlas Aberhonddu (9%)
- Talgarth/Llan-gors (9%)
- Pengenfford/ Llyn Pen-ffordd-goch (6%)
- Llanddewi Nant Honddu/Priordy Llanddewi Nant Honddu (6%)


7.10 Y lleoliadau yr ymwelwyd â nhw gan 3-5% o'r ymatebwyr oedd:

- Llangynidr / Tal-y-bont (4%)
- Llanymddyfri (4%)
- Abercraf/ Craig y Nos (4%)
- Canolfan Gweithgareddau/ Llyn Llan-gors (4%)
- Waun Fach a'r Mynyddoedd Duon (4%)
- Cronlyn Tal-y-Bont (3%)
- Castell Carreg Cennen (3%)
- Torpantau (3%)

7.11 Crybwyllwyd amrywiaeth o leoliadau a safleoedd eraill gan 2% o'r ymatebwyr neu lai. Darperir rhestr lawn yn yr Atodiadau Technegol.

## Pa mor hir maen nhw'n aros?

**Mae saith o bob deg yn treulio tair awr neu fwy yn y Parc Cenedlaethol**




Maint y sampl:1707

7.12 Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn treulio tair awr neu fwy yn y Parc Cenedlaethol (69%) gyda mwy na thraean yn treulio diwrnod cyfan. Mae ymwelwyr sy'n aros yn fwy tebygol o dreulio diwrnod llawn yn yr ardal (56%).

7.13 Mae pobl leol yn gwneud ymweliadau byrrach gyda mwy na hanner yr ymatebwyr (53%) yn aros am lai na thair awr.


7.14 Mae grwpiau sydd wedi eu trefnu yn tueddu i dreulio diwrnod cyfan yn y Parc Cenedlaethol (63%).

7.15 Mae'r cyfnod a dreulir yn y Parc Cenedlaethol gan ymwelwyr undydd yn amrywio gyda mwy na dau allan o bob tri'n aros am dair awr neu fwy (68%).

Mae un o bob pump (20%) yn aros am ddiwrnod cyfan a'r un faint eto'n aros am 5-6 awr, ond mae ychydig yn fwy'n aros am 3-4 awr (28%).

7.16 Mae hanner ymwelwyr y gaeaf yn treulio mwy na thair awr yn ardal y Parc Cenedlaethol o gymharu â thua thri chwarter ymwelwyr yr haf a'r hydref.

**Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n aros dros nos yn aros am 2-3 noson**




Maint y sampl:724, ymwelwyr sy'n aros


7.17 Mae dros hanner yr ymwelwyr sy'n aros yn gwneud hynny am hyd at dair noson (54%).

7.18 Mae ymwelwyr tramor yn aros yn hirach gyda 29% yn aros am 4-6 noson a bron i draean (31%) yn aros am saith noson neu fwy.

7.19 Mae ychydig o dan chwarter yr ymwelwyr (23%) yn aros am saith noson neu fwy, ond y rhai sydd mewn grwpiau o deuluoedd heb blant (42%) neu deuluoedd gyda phlant (37%) sy'n aros yr hiraf.

## Sut maen nhw'n teithio o amgylch y Parc?

### Ceir preifat yw'r ffordd fwyaf poblogaidd o deithio




Maint y sampl: 1705

7.20 Roedd y rhan fwyaf o ymwelwyr yn defnyddio car neu fan preifat i deithio o gwmpas y parc (83%), yn enwedig y rhai o Loegr (88%) ond roedd y canran yn llawer llai ar gyfer ymwelwyr tramor (46%) a grwpiau a oedd wedi eu trefnu (44%). Mae grwpiau wedi eu trefnu hefyd yn defnyddio bysiau preifat (28%) a cherbydau hurio (10%) yn amlach nag eraill.


7.21 Mae ymwelwyr tramor yn defnyddio dulliau eraill o deithio'n amlach. Defnyddiodd dau allan o bob pump (41%) gar neu fan hurio gyda 5% yn defnyddio'r trên, ac er bod y grŵp hwn yn cymharol fach, dyma'r grŵp sy'n defnyddio'r trên fwyaf.

7.22 Y rhai sy'n ymweld ar eu pennau eu hunain yw'r mwyaf tebygol o gerdded ar droed (16%). Mae grwpiau wedi eu trefnu hefyd yn uwch na'r cyfartaledd (10%) ar hyn. Mae cyfran uwch o bobl leol hefyd yn mynd ar droed (12%).

# 8. Boddhad Ymwelwyr a Chanfyddiadau o'r Gyrchfan

## Boddhad ymwelwyr yn gyffredinol

**Ceir graddau uchel o foddhad cyffredinol ar gyfer y Parc Cenedlaethol**





Maint y sampl: 1706

8.1 Mae'r profiad yn ardal y Parc Cenedlaethol yn cael ei raddio'n rhagorol ar y cyfan gyda 85% yn dweud ei fod yn ‘dda iawn’. Mae'r ymwelwyr tro cyntaf yn rhoi sgôr ychydig yn is (80%) gyda'r rhan fwyaf o'r gweddill yn dweud ei fod yn ‘dda’.

8.2 Rhoddir graddau arbennig o uchel gan rai grwpiau. Mae mwy o ymwelwyr y gaeaf yn dweud bod yr ardal yn ‘dda iawn’ nag yn y tymhorau eraill fel y gwna'r rhai mewn grwpiau wedi eu trefnu (90%) a theuluoedd heb blant (92%).

# Gwasanaeth i gwsmeriaid yn y cyfleusterau

**Llety, atyniadau a bwytai a gafodd eu graddio uchaf o ran gwasanaeth i gwsmeriaid**




Sail: yn amrywio yn ôl y cyfleusterau a ddefnyddiwyd, rhwng 708-1095

8.3 Ar gyfer y cwestiwn hwn, cafodd ymatebwyr a atebodd 'ddim yn berthnasol' eu heithrio o'r dadansoddiad fel bod y canlyniadau'n seiliedig ar y rhai a oedd yn gallu rhoi barn wybodus.

8.4 Ar y cyfan, ychydig iawn o anfodlonrwydd sydd yna gyda'r gwasanaeth cwsmeriaid yn y mathau hyn o gyfleusterau, er bod cyfran y bobl sy'n dweud nad ydynt yn gwybod yn amrywio.


8.5 Rhoddir y graddau uchaf am y gwasanaeth yn y cyfleusterau sydd â'r cysylltiadau cryfaf â'r sector twristiaeth. Mae llety ac atyniadau i ymwelwyr yn derbyn marciau 'da iawn' neu 'da' gan bron i naw allan o bob deg (89%) er mai llety a gafodd y rhan fwyaf o farciau 'da iawn' o bell ffordd.

8.6 Caiff gwasanaeth cwsmeriaid mewn cyfleusterau llety ei raddio'n uwch gan ymwelwyr o Loegr (93%) a chan ymwelwyr tramor (91%) na chan ymwelwyr o Gymru (79%).

8.7 Er ei fod yn dal yn isel ar 4%, siopau a gafodd eu graddio fel 'gwael' neu 'wael iawn' fwyaf ynghyd â 13% a ddywedodd fod y gwasanaeth i gwsmeriaid mewn siopau'n gymedrol.

## Tebygolrwydd o ddychwelyd

**Mae'r rhan fwyaf yn debygol iawn o ddychwelyd, ond yn llai ymhlith ymwelwyr tro cyntaf**




Maint y sampl: 1706

8.8 At ei gilydd, mae cyfran uchel o ymwelwyr yn dweud eu bod nhw'n debygol o ddychwelyd i Fannau Brycheiniog gyda bron i naw allan o bob deg (87%) yn dweud bod hyn 'yn debygol iawn'. Dywed y rhan fwyaf o'r gweddill eu bod nhw 'yn eithaf tebygol' o ddychwelyd. Fodd bynnag, mae'r cydbwysedd rhwng yr atebion hyn yn amrywio'n ôl nifer yr ymweliadau blaenorol a wnaed. Dywed ychydig yn llai na dau allan o bob tri ymwelydd tro cyntaf (64%) eu bod nhw'n debygol iawn o ddychwelyd o gymharu â 96% o'r rhai sydd wedi bod bedair gwaith neu fwy.

8.9 Mae tua wyth allan o bob deg ymwelydd sy'n aros (79%) yn 'debygol iawn' o ddychwelyd

8.10 O edrych ar y math o grŵp sy'n ymweld, ymwelwyr ar eu pennau eu hunain (94%) yw'r gyfran uchaf o bobl sy'n dweud eu bod nhw'n 'debygol iawn' o ddychwelyd, gyda theuluoedd heb blant (94%) a grwpiau eraill ychydig yn is na'r cyfartaledd (83%-85%).

8.11 Yn ôl tarddiad, dywedodd 94% o'r ymwelwyr o Gymru eu bod nhw'n debygol iawn o ddychwelyd o gymharu â 84% o Loegr a 48% o'r ymwelwyr tramor. Dywed chwarter yr ymwelwyr tramor nad ydynt yn gwybod (24%).

## Tebygolrwydd o argymell

**Mae'r rhan fwyaf o ymwelwyr yn debygol o argymell**

8.12 Gofynnwyd cwestiwn Sgôr Hyrwyddwr Net (NPS) i bawb a gymerodd ran i benderfynu ar y tebygolrwydd y byddent yn argymell Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i eraill ar sail sgôr o sero am 'ddim yn debygol o gwbl' i 10 sy'n golygu 'yn hynod o debygol'.

8.13 Defnyddiwyd y wybodaeth hon wedyn i gyfrifo sgôr NPS fel a ganlyn:

- Hyrwyddwyr (sgorau 9/10) = 85.6%
- Goddefol (sgorau 7/8) = 12.9%
- Bychanwyr (sgorau 0-6) = 1.5%
- Sgôr NPS = Hyrwyddwyr – Bychanwyr sy'n rhoi **sgôr o +84**

8.14 Mae sgôr NPS Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn uchel iawn sy'n awgrymu bod atgyfeiriadau cadarnhaol ar lafar yn debygol iawn.

8.15 Dengys dadansoddiad yn ôl math yr ymwelwyr mai pobl leol sy'n rhoi'r sgôr NPS uchaf, sef +88, o gymharu â +83 ar gyfer ymwelwyr undydd ac ymwelwyr sy'n aros.

8.16 Gan edrych ar darddiad ymwelwyr, mae gan y rhai o Gymru a Lloegr sgôr o +85, ond mae gan ymwelwyr tramor sgôr o +76.

8.17 Yn ôl hanes ymweliadau, mae gan ymwelwyr tro cyntaf NPS o +77 o gymharu ag +88 ar gyfer y rhai sydd wedi ymweld pedair neu fwy o weithiau o'r blaen.

## Hoff bethau am Fannau Brycheiniog

**Y dirwedd, yr harddwch, yr amgylchedd heb ei ddifetha ac ymlacio yw'r hoff bethau**

8.18 Gofynnwyd i gyfranogwyr yr arolwg mewn cwestiwn agored beth maen nhw'n ei hoffi fwyaf am Fannau Brycheiniog. Mae'r sylwadau wedi codio'n themâu eang sy'n cael eu dangos isod fel cwmwl geiriau cyfrannol.




8.19 Yn amlwg, mae llawer o'r un ffactorau a gafodd eu rhoi fel cymhellion allweddol ar gyfer ymweld yn cael eu hadlewyrchu yma hefyd. Mae mwynhau'r awyrgylch a'r effaith gadarnhaol ar les yn themâu sy'n gorgyffwrdd mewn llawer o'r sylwadau.

8.20 Mae bron i hanner yn dweud mai eu hoff beth am y Parc Cenedlaethol yw tirwedd a harddwch (46%).

8.21 Yn gysylltiedig â hyn, soniodd tua un o bob pump (18%) am yr amgylchedd sydd heb ei ddifetha ac am yr awyr iach. Mae'r gallu i ddod o hyd i heddwch, tawelwch a'r gallu i ymlacio hefyd yn ffactor y soniwyd llawer amdano.

8.22 Soniwyd am y gweithgareddau sydd ar gael gan 14%, a soniwyd yn benodol am y mynyddoedd a'r bryniau gan 8% er bod hyn yn cael ei awgrymu gan lawer gan gyfeirio at harddwch y dirwedd.

8.23 Soniodd 5% am dderbyn croeso cynnes gan bobl leol gyfeillgar fel agwedd bositif o'r ardal. Soniwyd am ffactorau amrywiol eraill gan lai na 5% o'r ymatebwyr.

8.24 Mae rhai o'r dyfyniadau isod yn dangos y sylwadau hyn:

*"Rwyf wrth fy modd yn cerdded ar y mynyddoedd. Mae'r bobl leol yn gyfeillgar ac mae'r trefi lleol yn ddiddorol iawn."*

*"Ardal ardderchog gyda golygfeydd gwych a chyfle i ddianc oddi wrth y bwrlwm."*

*"Mae'n hardd ac yn amrywiol a gallwch deimlo'n bell, ond nid ydych byth yn bell oddi wrth help (na'r dafarn) mewn gwirionedd, os bydd eu hangen!"*

*"Tirweddau anhygoel, mor agos at y ddinas.*

## Meysydd i'w gwella

**Mae llawer yn ei hoffi, ond hoffai rhai weld toiledau, arwyddion, a gwell cynnal a chadw**

8.25 Gofynnwyd i ymatebwyr am unrhyw beth yr hoffent ei weld yn cael ei wella i wneud eu hymweliad yn fwy pleserus. Fel o'r blaen, mae'r ymatebion wedi eu codio'n themâu ac wedi eu crynhoi isod:

| Paethau i'w wella | % |
|---|---|
| Dim – cadwch ef fel y mae | 37% |
| Ddim yn gwybod/ddim yn gallu ateb | 20% |
| Mwy o doiledau/cynnal a chadw, a glanhau toiledau'n well | 9% |
| Gwell arwyddion a gwybodaeth | 7% |
| Cynnal a chadw llwybrau'n well, glendid cyffredinol/sbwriel | 6% |
| Rheoli parcio'n well/parcio llai drud | 6% |
| Mwy o amwynderau e.e. gwybodaeth i ymwelwyr, caffis a gwell oriau agored | 4% |
| Gwell WiFi a signal ffôn | 3% |
| Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys: gwell trafnidiaeth gyhoeddus, mwy o weithgareddau/llwybrau ar gyfer cerddwyr a beicwyr, rheoli traffig yn well, mwy o weithgareddau sy'n addas i blant, yn fwy croesawgar i gŵn | |

8.26 Dywedodd dros draean o'r ymatebwyr nad oedd ganddynt unrhyw awgrymiadau gan eu bod nhw'n hapus iawn gyda'r ardal fel y mae, gyda llawer yn dweud nad ydynt am iddi gael ei newid neu ei difetha. Dywedodd un o bob pump nad oeddynt yn gwybod ac nad oedd ganddynt awgrymiadau.

8.27 Mae'r rhai oedd ag awgrymiadau'n arbennig o awyddus i weld gwell gynnal a chadw a gwelliannau isadeiledd presennol megis toiledau, arwyddion a gwybodaeth, glendid cyffredinol llwybrau ac ymdrin â sbwriel.

8.28 Mae parcio'n broblem i rai, yn enwedig o gwmpas mannau prysur fel Storey Arms. Mae parcio yn rhai ardaloedd o'r Parc Cenedlaethol yn cael ei ystyried yn ddrud.

8.29 Mae rhai o'r sylwadau isod yn dangos y pwyntiau hyn:

*"Dim byd o gwbl! Mae'n berffaith"*

*"Mae parcio ceir ym Mhont ar Daf yn ofnadwy, mae'r ceir wedi eu parcio ar ymylon y glaswellt ar hyd y briffordd am filltir i bob cyfeiriad, mae hyn yn beryglus pan mae pobl â phlant neu gŵn yn croesi'r ffordd ac yn mynd i mewn ac allan o'r car."*

*"Mae arwyddion ar y llwybrau cerdded yn wael iawn – mae'n anodd iawn dod o hyd i'r ffordd, yn enwedig pan mae llwybrau gwledig yn croesi."*


*"Llwybrau gwell. Mwy o hysbysfyrddau. Mae angen mannau parcio gwell. Mwy o doiledau. Meinciau i eistedd arnynt. Mwy o leoedd pasio ar y ffyrdd."*

# 9. Ymwybyddiaeth a barn am y Parc Cenedlaethol

## Ymwybyddiaeth

9.1 Gofynnwyd i'r holl gyfranogwr a oeddent yn ymwybodol eu bod nhw yn y Parc Cenedlaethol, neu eu bod nhw wedi bod yno. Mae ymwybyddiaeth yn uchel gyda 93% yn nodi eu bod nhw'n ymwybodol o hyn, ond roedd hyn ychydig yn is ar gyfer y rhai a oedd ar eu hymweliad cyntaf (89%) y rhai ar eu hail ymweliad (87%) a'r rhai o dramor (88%).

9.2 Roedd bron iawn pawb a oedd yn ymwybodol o statws y Parc Cenedlaethol yn gwybod am hyn cyn iddynt ymweld (97%), er bod y canran ychydig yn is ymysg ymwelwyr sy'n aros (95%), y rhai a oedd ar eu hymweliad cyntaf â'r Parc Cenedlaethol (93%), ac ymwelwyr o Loegr (95%).




Maint y sampl: 449 o ymatebwyr (ar-lein yn unig)


9.3 Heblaw am fod yn lleol, y prif ffyrdd y daeth cyfranogwyr yn ymwybodol o statws y Parc Cenedlaethol oedd drwy lyfrynnau neu arweinlyfrau, drwy'r rhyngrwyd neu drwy drydydd parti h.y. ffrindiau a pherthnasau neu ar lafar.

9.4 Ymwelwyr a oedd yn aros oedd y tebycaf o fod wedi clywed drwy lyfrynnau/arweinlyfrau (17%) neu ar y rhyngrwyd (17%) fel yr oedd ymwelwyr o Loegr (16% a 15% yn y drefn honno). Roedd pobl ar eu hymweliad cyntaf hefyd yn debycach o fod wedi dysgu hyn ar y we (26%), drwy ffrindiau a pherthnasau (14%) neu arweinlyfrau (12%). Dywed dau allan o bob pum ymwelydd o Gymru (42%) eu bod nhw'n gwybod am y Parc Cenedlaethol gan eu bod nhw'n byw yn yr ardal.

9.5 Nid yw llawer o'r rhai sy'n rhoi ‘arall’ fel ateb yn gallu pinbwyntio pryd y daethant yn ymwybodol yn gyntaf gan eu bod nhw ‘wedi gwybod erioed’ neu'n dweud eu bod nhw wedi ymweld â'r Parc Cenedlaethol nifer o weithiau o'r blaen. Mae ymatebwyr eraill yn crybwyll ychydig o ffyrdd eraill o ddod yn ymwybodol o statws y Parc Cenedlaethol, megis mapiau, drwy'r ysgol/addysg, a theithiau fel Gwobr Dug Caeredin.

# Canfyddiadau o'r Parc Cenedlaethol

## Yn gyffredinol, ceir argraff gadarnhaol o'r Parc Cenedlaethol




Maint y sampl: Amrywiol 1705-1707

## Mae'r rhan fwyaf yn cytuno bod y parc yn cael gofal da

9.6 Mae dros naw allan o bob deg ymwelydd (92%) yn cytuno i ryw raddau bod y Parc Cenedlaethol yn cael ei reoli'n dda ar y cyfan ac y gofelir amdano gyda dim ond 2% yn anghytuno.

9.7 Nid oes unrhyw amrywiadau sylweddol yn ôl math y grŵp nag yn ôl ffactorau eraill er bod cyfran ychydig yn is o'r rhai sydd ar eu hymweliad cyntaf yn cytuno (88%), ond gan amlaf, nid yw'r gweddill yn gwybod yn hytrach nag yn anghytuno. Mae hyn yn debyg ar gyfer ymwelwyr tramor (87%).

## Mae naw o bob deg yn cytuno bod y gyrchfan yn cynnig gwerth da am arian

9.8 Mae'r rhan fwyaf yn cytuno i ryw raddau bod y gyrchfan yn cynnig gwerth da am arian (88%) gyda dim ond 1% yn rhoi ymateb negyddol, er nad yw 6% yn cytuno nac yn anghytuno, a dywed cyfran debyg nad ydynt yn gwybod (5%).

9.9 Unwaith eto, nid oes yna amrywiad sylweddol ar lefel is-grŵp, ond er bod y rhan fwyaf o ymwelwyr gyda theuluoedd â phlant (88%) o'r farn bod yr ardal yn cynnig gwerth da am arian, roedd 3% yn anghytuno. Mae ymwelwyr tro cyntaf ychydig yn llai tebygol o gytuno (84%), ond llai nag 1% sy'n anghytuno.

### Mae gwybodaeth am y Parc yn hawdd i'w chael i'r rhan fwyaf o ymwelwyr, ond ceir lleiafrif sydd heb benderfynu

9.10 Mae mwy o ymatebwyr sy'n cytuno bod cyrchu gwybodaeth cyn ymweliad yn hawdd (81%) yn hytrach nag yn ystod ymweliad (73%).

9.11 Er mai ychydig sy'n anghytuno ynghylch rhwyddineb cyrchu gwybodaeth cyn (2%) neu yn ystod taith (4%), mae lleiafrif sylweddol sydd ddim yn cytuno nac yn anghytuno, ac nid yw un allan o bob deg yn gwybod. Gall hyn awgrymu bod rhwyddineb cyrchu gwybodaeth yn amrywiol, yn enwedig yn ystod ymweliadau.

9.12 Nid oes yna fawr o wahaniaeth yn ôl math y grŵp a demograffeg ar gyfer y rhai nad ydynt o'r farn bod gwybodaeth yn hawdd i'w chyrchu. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau yn y gyfran sy'n meddwl bod gwybodaeth yn hawdd i'w chyrchu gyda'r gweddill yn disgyn i mewn i'r grwpiau 'ddim yn gwybod' a'r grwpiau nid/nac. Gyda lefel uchel o ymwelwyr sy'n ailymweld ac sy'n adnabod yr ardal yn dda, mae'n bosibl nad ydynt wedi edrych am wybodaeth ac, o ganlyniad, nid ydynt wedi penderfynu/yn gallu dweud.

9.13 Ymwelwyr undydd yw'r lleiaf tebygol o gytuno bod cyrchu gwybodaeth yn ystod ymweliad yn hawdd (66%) a'r mwyaf tebygol o anghytuno (6%). Dim ond 3% o ymwelwyr sy'n aros sy'n anghytuno.

### Rhywfaint o ddiddordeb mewn gwirfoddoli amser ac arian, yn enwedig ymysg pobl leol


9.14 Yn gyffredinol, dywed dau allan o bob pump (39%) y byddent yn ystyried rhoi amser neu arian i helpu'r Parc Cenedlaethol, gan godi i 49% ymysg pobl leol. Mae lefelau'r diddordeb yn hyn hefyd yn amrywio yn ôl hanes yr ymweliadau gan fod y rhai sydd wedi ymweld fwyaf yn dangos y diddordeb mwyaf.

9.15 Mae hyn hefyd yn amrywio yn ôl tymhorau gydag ymwelwyr y gwanwyn yn dangos y diddordeb mwyaf gyda thros hanner yn dweud y byddent yn ystyried helpu (56%) o gymharu â 32% yn yr hydref, 40% yn y gaeaf a 38% yn yr haf.

## Isadeiledd Ymwelwyr

9.16 Dangoswyd rhestr o wahanol agweddau ar isadeiledd ymwelwyr i ymatebwyr a gofynnwyd iddynt ba rai y bydden nhw eu graddio'n uchel a pha rai yr oeddynt yn meddwl oedd angen eu gwella.

**Ceir y marciau uchaf am lwybrau a meysydd parcio, ond ychydig yn unig a roddodd farciau uchel am y derbyniad ffôn symudol, trafnidiaeth gyhoeddus, neu WiFi**




Maint y sampl: 1707


9.17 Rhoddir y marciau uchaf am gyflyrau llwybrau'r ucheldir a'r iseldir, gyda thua hanner yr ymatebwyr yn graddio hyn yn uchel. Mae mwy o ymwelwyr undydd yn graddio cyflyrau llwybrau'r ucheldir yn uchel (58%) na thrigolion (47%) neu ymwelwyr sy'n aros (49%).

9.18 Mae llai o bobl leol yn graddio darpariaeth meysydd parcio'n uchel (37%) o gymharu ag ymwelwyr undydd (46%) ac ymwelwyr sy'n aros (44%).

9.19 Mae hysbysfyrddau, arwyddion a mannau picnic yn cael eu graddio'n uchel gan draean neu ddau allan o bob pum ymatebwr, ond mae'r nifer sy'n graddio nodweddion eraill yn uchel yn llai na thri allan o bob deg. Mae'r nifer sy'n dweud y byddent yn rhoi sgôr uchel am gysylltedd ffôn symudol, WiFi a thrafnidiaeth gyhoeddus yn llai nag un allan o bob deg.

9.20 Dywed bron i un allan o bob pump (18%) na fyddent yn rhoi sgôr uchel i un o'r nodweddion hyn, gan godi i chwarter y bobl leol (26%) ac ychydig dros hanner yr ymwelwyr tro cyntaf (28%).

## Nid oes angen gwelliannau yn ôl hanner yr ymatebwyr, ond toiledau a chysylltedd yw'r prif broblemau fel arall




Maint y sampl: 1707

9.21 Er nad oedd llawer o agweddau isadeiledd ymwelwyr yn cael eu graddio'n arbennig o uchel yn y cwestiwn blaenorol, nid yw'r rhain yn cael eu hystyried yn faterion llosg sydd angen sylw chwaith pan ofynnir beth y dylid eu gwella.

9.22 Er bod dros hanner yn dweud nad oes angen unrhyw welliannau (55%), mae hyn yn amrywio yn ôl hanes ymweliadau. Nid yw bron i ddau allan o bob tri ymwelydd tro cyntaf (63%) yn gweld unrhyw angen am welliannau, ond mae'r gyfran hon yn disgyn i thua hanner (51%) ymysg y rhai sydd wedi ymweld bedair gwaith neu fwy.

9.23 Caiff argaeledd toiledau cyhoeddus ei amlygu'n arbennig fel maes mae angen ei wella gan ymwelwyr undydd (22%), gan y rhai sy'n ymweld gyda grwpiau sydd wedi eu trefnu (25%), gan deuluoedd heb blant (19%), a chan ffrindiau (19%). Caiff hyn ei grybwyll yn fwy gan y rhai sy'n ymweld yn y gaeaf (23%).

9.24 Dim ond ychydig o amrywiad sydd yn ôl math y grŵp am y rhai sy'n chwilio am dderbyniad gwell ar gyfer ffonau. Fodd bynnag, yn dymhorol, tua chwarter ymwelwyr y gwanwyn (23%) a'r gaeaf (25%) sy'n sôn am hyn o gymharu ag 16% yn gyffredinol. Mae'r ymatebion yn debyg ar gyfer y rhai sy'n chwilio am well fynediad WiFi er ei fod yn uwch eto ymysg ymwelwyr y gaeaf (29%) o gymharu â 15% yn gyffredinol. Y rhai a gafodd eu cyfweld a oedd yn rhan o grwpiau wedi eu trefnu oedd fwyaf awyddus i weld y mynediad WiFi yn cael ei wella (24%).


9.25 Caiff arwyddion eu crybwyll hefyd gan tua un o bob deg (8%), ond nid yw hyn yn sefyll allan fel pryder mawr i unrhyw fath o grŵp neu ymwelydd penodol.

9.26 Caiff darparu meysydd parcio ei grybwyll fel maes sydd angen gwelliannau pellach gan fwy o ymwelwyr undydd (10%) a phobl leol (8%) na'r gyfran gyffredinol (6%). Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn fater sy'n peri pryder i bobl leol (11%) yn arbennig.

## Boddhad gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol

9.27 Fe wnaeth ymatebwyr ar-lein raddio eu bodlonrwydd gyda'r gweithgareddau rheoli a gynhelir gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Er hwylustod darllen, mae'r rhain wedi eu trefnu yn ôl lefel y boddhad, gan eu rhannu'n ddau siart sy'n dilyn.

**Ceir lefelau boddhad uchel am warchod a rheoli llwybrau troed a mynediad**




Maint y sampl: 448-450 amrywiol, ymatebwyr ar-lein

9.28 Rhoddir y cyfraddau bodlonrwydd uchaf am warchod y dirwedd a rheoli llwybrau troed a mynediad gyda 90% yn rhoi sgôr cadarnhaol. Dim ond 3% sy'n anfodlon ar gadwraeth y dirwedd, ond mae hyn yn uwch ymysg pobl leol (7%).

9.29 Yn gyffredinol, tuedda pobl leol i feddu ar well gwybodaeth o'r ardal, felly maent yn rhoi llai o ymatebion ‘ddim yn gwybod’. Weithiau, maent yn rhoi cyfraddau bodlonrwydd uwch yn gyffredinol ond, er yn gymharol isel, maent hefyd yn rhoi mwy o gyfraddau bodlonrwydd isel nag ymwelwyr cyffredinol.

9.30 Er bod 90% yn fodlon ar lwybrau troed a mynediad, ceir nifer fach sydd ddim (6%) ac mae hyn yn amlycach ymhlith pobl leol (10%).

9.31 O ran cadwraeth safleoedd neu ardaloedd hanesyddol, pobl leol yw'r mwyaf bodlon ar Awdurdod y Parc Cenedlaethol (90%) o gymharu â 79% yn gyffredinol; ymddengys hefyd eu bod nhw'n fwy gwybodus gan mai dim ond

8% sy'n dweud nad ydynt yn gwybod o gymharu ag un o bob pump yn gyffredinol (20%).

9.32 Mae tua phedwar allan o bump (79%) yn fodlon ar Awdurdod y Parc Cenedlaethol o ran cadwraeth bywyd gwyllt. Pobl leol a fynegodd y boddhad uchaf (85%) a'r safbwyntiau mwyaf negyddol (7%) o gymharu â 2% ar y cyfan.

9.33 Mae cyfran debyg (79%) yn fodlon bod Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn helpu pobl i fwynhau'r ardal. Mae tua'r un gyfran o bobl leol yn fodlon (81%), ond nid yw 12% ohonynt yn fodlon o gymharu â 6% yn gyffredinol. Mae hyn yn cymharu ag 82% a 4% o ymwelwyr sy'n aros.


9.34 Wrth gymharu â chanlyniadau'r Arolwg Preswylwyr diwethaf gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn 2013[1], mae boddhad ymhlith ymwelwyr, hyd yn oed ymhlith pobl leol, yn tueddu i fod yn uwch o lawer ar gyfer yr holl weithgareddau hyn. Yn arolwg y preswylwyr, roedd boddhad yn amrywio o 71% i 80%, ac anfodlonrwydd o 9% i 17% ar gyfer y cwestiynau hyn.

[1] Arolwg Preswylwyr Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, MEL Research, 2013

## Llai o ymwybyddiaeth o weithgareddau, safbwyntiau negyddol ar reoli effaith ymwelwyr

9.35 Mae'r siart isod yn dangos gweddill y cwestiynau boddhad sy'n ymwneud â rheolaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Roedd gan bob un o'r rhain gyfraddau bodlonrwydd o 71% neu lai.

9.36 Ar gyfer llawer o'r graddau hyn, roedd gan yr ymatebwyr farn lai cadarn a cheir cyfran uwch o ymatebion 'ddim yn gwybod'. Mae hyn yn awgrymu nad ydynt yn ddigon ymwybodol o weithgareddau Awdurdod y Parc Cenedlaethol i roi barn.




Maint y sampl: 448-450 amrywiol, ymatebwyr ar-lein

9.37 Caiff diogelu a chefnogi treftadaeth ddiwylliannol raddau uwch gan bobl leol (85%), y nhw sydd hefyd yn rhoi'n nifer lleiaf o ymatebion 'ddim yn gwybod' (13%). Mae bron i ddau ymwelydd sy'n aros o bob tri (65%) yn fodlon, ond nid yw traean ohonynt yn gwybod (31%).

9.38 Mae dau o bob tri (66%) yn fodlon ar y ffordd y mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn rheoli effaith pobl neu ymwelwyr ar yr ardal, ac ychydig o amrywiaeth sydd yn hyn yn ôl math yr ymatebydd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn 'weddol' fodlon. Fodd bynnag, mae 11% yn anfodlon ac mae hyn yn codi i un o bob pump (19%) ymysg pobl leol, er nad yw 14% yn gwybod. Ymwelwyr sy'n aros sydd â'r anfodlonrwydd isaf (7%).

9.39 Mae ychydig dros hanner yr ymatebwyr (53%) yn fodlon ar gefnogaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol i fusnesau twristiaeth, gan godi i 62% ymysg pobl leol. Fodd bynnag, dywed dros ddau o bob pump (43%) nad ydynt yn gwybod, gyda'r gyfran uchaf o 51% ar gyfer ymwelwyr undydd. Mae 5% o'r ymatebwyr cyffredinol yn anfodlon, ond 13% yw'r gyfran ar gyfer pobl leol.

9.40 Mae ychydig o dan hanner (46%) yn mynegi bodlonrwydd gyda pharatoadau Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar gyfer hinsawdd sy'n newid, mae'r gyfran yn uwch ar gyfer bobl leol (59%).

9.41 Mae gweithgareddau Awdurdod y Parc Cenedlaethol i weithio'n agos gyda thrigolion a chymunedau'n cael y cyfraddau boddhad isaf oll (38%), ond nid yw 57% yn gwybod. Ymysg pobl leol, fodd bynnag, mae 61% yn fodlon i ryw raddau, ond mae 11% yn anfodlon.

9.42 Wrth gymharu ag Arolwg Preswylwyr 2013, gellir gweld bod boddhad ar y cyfan yn uwch ar gyfer y gweithgareddau Awdurdod Parc Cenedlaethol hyn ymhlith ymwelwyr, hyd yn oed ymhlith ymwelwyr lleol, sy'n tueddu i ddangos yr anfodlonrwydd mwyaf. Roedd boddhad yn yr Arolwg Preswylwyr yn is ac yn amrywio o 39% i 66%, ac anfodlonrwydd o 10% i 32%.

9.43 Fodd bynnag, o ran dull Awdurdod y Parc Cenedlaethol tuag at '*reoli effaith pobl neu ymwelwyr ar yr ardal*', roedd cyfran fwy o 'bobl leol' yn yr Arolwg Ymwelwyr yn fodlon (67% o gymharu â 59% yn yr Arolwg Preswylwyr) ac yn anfodlon (19% o gymharu ag 16%), ac roedd llai o ymatebion 'ddim yn gwybod'. O ran dull Awdurdod y Parc Cenedlaethol tuag at '*weithio'n agos gyda phreswylwyr a chymunedau'*, roedd pobl leol yn yr Arolwg Ymwelwyr yn fodlonach (61%) na'r rheini yn yr Arolwg Preswylwyr (41%) ac yn llai anfodlon hefyd (11% o gymharu â 32%).

# 10. Gwariant Ymwelwyr a Maint Partïon

## Gwariant ymwelwyr

**Mae ymwelwyr sy'n aros o fewn y parc yn gwario mwy na grwpiau eraill**

10.1 Gofynnwyd i ymwelwyr nodi faint maen nhw wedi ei wario yn ystod eu hymweliad, wedi ei ddadansoddi yn ôl y math o wariant. Nid yw galw i gof ac amcangyfrif gwariant yn dasg hawdd i ymwelwyr o reidrwydd. Mae'r manylion wedi eu gadael yn wag pan oeddent yn cofio gwario, ond heb gofio faint, ac felly, nid ydynt wedi eu cynnwys yn y cyfrifiadau. Pan oedden nhw'n gwybod nad oedden nhw wedi gwario mewn categori gwariant penodol, cofnodwyd sero a gafodd ei gynnwys yn y cyfrifiadau.

10.2 Nid yw'r ffigurau wedi eu talgrynnu i fyny nac i lawr oherwydd yr effaith fawr a fyddai'n dilyn wrth ddefnyddio'r ffigurau hyn i gyfrannu at unrhyw gyfrifiadau eraill.

10.3 Ar gyfer pob categori o wariant, ymwelwyr sy'n aros sy'n tueddu i wario mwy na grwpiau eraill.

10.4 Ar gyfartaledd, gwariodd ymwelwyr sy'n aros tua £270 ar lety, ond mwy yn nodweddiadol os oeddent yn aros y tu allan i'r parc (£313) a llai os oeddent yn aros o fewn y parc (£219).

10.5 Bwyd a diod yw'r categori nesaf o ran gwariant, ac mae ymwelwyr sy'n aros o fewn y parc yn debygol o wario mwy (£67) o gymharu â'r rhai sy'n byw yn lleol (£13) neu ymwelwyr undydd (£14).

| Math o wariant | Pawb | Byw yn lleol neu'n breswylydd | Ymwelydd am y diwrnod | Yn aros o fewn y parc | Yn aros y tu allan i'r parc | Maint cyfartalog y grŵp (y rhai sy'n darparu data gwariant) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llety (pris cyffredinol) | £270.76 | - | - | £219.26 | £313.68 | 2.9 |
| Bwyd a diod* | £35.58 | £13.17 | £14.56 | £67.14 | £52.07 | |
| Adloniant/atyniadau* | £9.82 | £4.43 | £4.22 | £21.67 | £13.14 | |
| Siopau twristiaid* | £10.36 | £2.96 | £5.94 | £18.67 | £19.58 | 2.6 |
| Trafnidiaeth yn yr ardal* | £8.25 | £2.73 | £4.47 | £12.91 | £21.98 | |
| Prynu arall* | £11.26 | £7.04 | £5.59 | £23.54 | £18.21 | |

*Pris cyfartalog bob dydd. Maint sampl amrywiol.

## Maint y grŵp

### Maint cyfartalog y grŵp


10.6 Ar sail gwybodaeth a gasglwyd am y **grŵp** yn hytrach na'r **ymatebwr**, maint cyfartalog pob grŵp yw 3.2 gyda rhywfaint o amrywiaeth yn ôl math yr ymwelwyr. Daw ymwelwyr sy'n aros mewn grwpiau ychydig yn fwy (3.4) tra bo grwpiau o bobl leol fel arfer ychydig yn llai (2.8):

| Math o Ymwelwyr | Maint Cyfartalog y Grŵp |
|---|---|
| Byw yn lleol neu'n breswylydd | 2.8 |
| Ymwelydd am y diwrnod | 3.0 |
| Ymwelydd sy'n aros | 3.4 |
| Pob ymwelydd | 3.2 |

10.7 Mae maint grwpiau'n amrywio rhwng 1 a 78 o bobl. Cafodd dros 50 o grwpiau wedi eu trefnu eu cynnwys yn y sampl cyffredinol ac mae gan y rhain, fel arfer, grwpiau mwy.

### Nifer o bobl ym mhob grŵp

10.8 Mae nifer y bobl ym mhob grŵp yn amrywio yn ôl y math o ymatebydd. Daw tua hanner yr ymwelwyr undydd a'r ymwelwyr sy'n aros mewn grwpiau o ddau o bobl, ond nid yw'r rhain yn barau bob amser. Mae tri allan o bob deg person lleol (29%) yn ymweld ar eu pennau eu hunain ac mae bron i un o bob pum ymwelydd sy'n aros (17%) mewn grŵp o bedwar.




Maint y sampl: 1703

# 11. Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Phen y Fan

## Aelodaeth ac Ymwybyddiaeth o Rôl yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

**Aelodaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol**

11.1 Gofynnwyd i gyfranogwyr wyneb yn wyneb a oeddent yn aelodau o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol (YG). Ar y cyfan, dywedodd 15% eu bod nhw. Roedd hyn ar ei uchaf ymysg ymwelwyr sy'n aros (18%) o gymharu â phobl leol (14%) ac ymwelwyr undydd (11%).

11.2 Roedd ymwelwyr o Loegr hefyd yn debycach o fod yn aelodau o'r YG - 24% o gymharu â 10% yng Nghymru. Nid oedd yr ymwelwyr o fannau eraill yn aelodau.


11.3 Yn ôl math y grwpiau, ymwelwyr unigol oedd y lleiaf tebygol o fod yn aelodau o'r YG (9%), ac ymwelwyr mewn grwpiau wedi eu trefnu oedd y tebycaf (18%). Mae pob grŵp arall o gwmpas y cyfartaledd o 15%.

**Ymwybyddiaeth dda o bwy sy'n gofalu am Ben y Fan cyn yr ymweliad**

11.4 Gofynnwyd i ymatebwyr yn Storey Arms a oeddent yn gwybod bod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gofalu am Ben y Fan. Roedd y rhan fwyaf yn gwybod hyn cyn iddynt ddod.


11.5 Fodd bynnag, mae gan ymwelwyr tro cyntaf lai o ymwybyddiaeth gyda dim ond 68% yn gwybod am rôl yr YG cyn iddynt ddod. Daw 10% i wybod pan fyddant yn cyrraedd, ac nid oedd 22% yn gwybod hyn pan ofynnwyd iddynt.

11.6 Roedd llai o ymwelwyr sy'n aros yn ymwybodol o rôl yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol cyn eu hymweliad (73%) gydag ychydig yn llai nag un o bob pump ddim yn gwybod (17%). Mae tarddiad yr ymwelwyr hefyd yn effeithio ar yr ymwybyddiaeth o'r ffaith fod yr YG yn edrych ar ôl Pen y Fan gydag 85% o ymatebwyr Cymreig yn gwybod cyn iddynt ddod o gymharu â 76% o Saeson a 56% o ymwelwyr tramor.




Maint y sampl: 210 (ymatebwyr wyneb yn wyneb yn Storey Arms)

**Dywedodd y rhan fwyaf o ymwelwyr fod eu hymweliad i Ben y Fan yn bleserus iawn**




Maint y sampl: 210 (ymatebwyr wyneb yn wyneb yn Storey Arms)

11.7 Gofynnwyd i ymwelwyr y Storey Arms beth oeddent yn ei feddwl o'u hymweliad â Phen y Fan. Nid oedd unrhyw gyfraddau negyddol a dywedodd y rhan fwyaf eu bod nhw wedi cael ymweliad pleserus iawn (84%).

11.8 Nid oes unrhyw amrywiadau sylweddol yn ôl y math o grŵp na'r ddemograffeg.

# 12. Casgliadau

12.1 Er mai arolwg meincnodi yw prif ddiben yr arolwg hwn, mae nifer o themâu sy'n rhedeg drwy'r canlyniadau.

**Mae manteision yr awyr agored, awyr iach, a chael lle i anadlu yn cynnig cymhelliant cryf i ymweld**

12.2 Mae dianc rhag bywyd bob dydd mewn lleoliad prydferth sy'n gymharol agos yn arbennig o ddeniadol i ymwelwyr. Mae cysylltiad cryf i ymwelwyr rhwng gwella lles ac archwilio yn yr awyr agored – boed hynny'n gwylio golygfeydd cyffredinol, cerdded, neu weithgareddau eraill. Mae hyn yn fwy gwir byth i ymwelwyr dydd.

12.3 Mae bwyta yn gymhelliant cryf, yn enwedig ar gyfer ymwelwyr sy'n aros, sy'n dueddol o wario mwy ar fwyd a diod yn yr ardal.

**Ystyrir bod gweithgareddau Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn dda o ran cadwraeth, ond yn llai o ran ymgysylltu a chymorth**

12.4 Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn denu graddau boddhad uchel ar gyfer nifer o weithgareddau, yn enwedig o ran cadwraeth.

12.5 Dim ond ychydig o wybodaeth sydd gan rai ymwelwyr o ran cyfrifoldebau a gweithgareddau Awdurdod y Parc Cenedlaethol, sy'n arwain at gyfradd uchel o ymatebion 'ddim yn gwybod'. Mae pobl yn llai sicr o ran gweithgareddau sy'n gysylltiedig â threftadaeth ddiwylliannol, rheoli effeithiau, cefnogaeth ar gyfer busnesau twristiaeth, newid hinsawdd ac ymgysylltu â'r gymuned.

12.6 Mae pobl leol yn fwy ymwybodol ac yn nodi mwy o gyfraddau cadarnhaol a negyddol ynglŷn â pherfformiad Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

12.7 Gallai ymgysylltu'n well â phobl leol ac ymwelwyr eraill helpu i godi ymwybyddiaeth o ran swyddogaeth a gweithgareddau Awdurdod y Parc Cenedlaethol, gan dderbyn na fydd y rhain o ddiddordeb i bawb.

12.8 Er bod y rhan fwyaf yn fodlon o ran gweithgareddau Awdurdod y Parc Cenedlaethol, *'rheoli effaith pobl neu ymwelwyr ar yr ardal'* sy'n cael yr ymateb mwyaf negyddol, yn enwedig gan bobl leol.

**Mae canfyddiadau o'r Parc Cenedlaethol yn gadarnhaol iawn ar y mwyaf, ond mae rhai meysydd y mae angen rhoi sylw iddynt**

12.9 Mae ymateb cadarnhaol iawn i'r Parc, mae ymwelwyr yn cael profiad da, ac mae'n debygol y bydd y rhan fwyaf yn dychwelyd. Fodd bynnag, nid yw ymwelwyr tro cyntaf yn rhoi sgôr yr un mor ganmoliaethus â phobl eraill, er nad ydynt yn arbennig o negyddol. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd gwneud argraff dda y tro cyntaf er mwyn annog ymwelwyr i ddod eto, ac annog argymhellion ar lafar.

12.10 Mae ymwelwyr yn arbennig o hoff o brydferthwch y dirwedd a natur heb ei difetha Bannau Brycheiniog.

12.11 Mae ambell sgôr negyddol o ran y gwasanaeth cwsmeriaid mewn amwynderau, ond siopau sydd â'r cyfraddau isaf, sy'n awgrymu bod lle i wella.

Mae ymwelwyr yn dweud y gallai amwynderau, gan gynnwys caffis a siopau, gael eu gwella drwy ehangu'r ddarpariaeth a gwell oriau agored.

12.12 Gwella argaeledd a glanweithdra toiledau yw'r prif faes i'w wella ar gyfer tua un o bob chwe ymwelydd, yn enwedig ymwelwyr dydd a'r rheiny mewn grwpiau wedi eu trefnu. Yn ogystal â darparu neu agor mwy o doiledau, byddai ymwelwyr hefyd yn hoffi eu gweld yn cael eu hailwampio, eu glanhau'n well, a sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn.

12.13 Gallai arwyddion a gwybodaeth i ymwelwyr fod yn well yn ôl rhai ymwelwyr. Mae'r sylwadau yn tynnu sylw at yr angen i gael arwyddion llwybr sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n well er mwyn osgoi dryswch a phobl sy'n mynd ar goll, ond hefyd arwyddion ffyrdd a chyfeiriadau gwell. Gellid gwella'r wybodaeth i ymwelwyr, megis byrddau gwybodaeth, hanes, mapiau llwybr mwy manwl ar gyfer llwybrau cerdded, rhedeg a beicio, a gwybodaeth ynglŷn â pharcio.

12.14 Tynnir sylw hefyd at lendid a chynnal a chadw cyffredinol llwybrau ac ysbwriel yn yr ardal. Yn benodol, mae ymwelwyr yn gofyn am ragor o finiau, gan gynnwys ar gyfer baw cŵn, cynnal a chadw llwybrau, ffyrdd a chamlesi, a chael gwared ar ysbwriel.

12.15 Mae costau a rheoli parcio yn rhwystredig i rai ymwelwyr. Maent am gael cyfleusterau parcio gwell mewn lleoliadau prysur iawn megis Pont ar Daf, ond hefyd parcio am ddim neu gost isel mewn mannau eraill megis trefi er mwyn annog ymweliadau.

12.16 Mae cysylltedd yn broblem ac yn faes i'w wella, yn enwedig WiFi a signal ffôn. Gan mai ymwelwyr sy'n chwilio am wybodaeth yn ystod eu hymweliad sydd fwyaf tebygol o ddefnyddio ffôn clyfar, yn enwedig ymwelwyr sy'n aros, mae hyn yn bwynt pwysig i roi sylw iddo. Dylai'r wybodaeth ddigidol i ymwelwyr gael ei hoptimeiddio hefyd ar gyfer ffonau clyfar, er mwyn sicrhau'r mynediad mwyaf rhwydd i wybodaeth.

12.17 Er y byddai rhai ymwelwyr yn hoffi gweld rhai gwelliannau i Fannau Brycheiniog, mae ymdeimlad cryf o ran 'cadw pethau fel y maent'. Nid yw'r rhai sy'n defnyddio'r Parc am iddo gael ei lethu gan dwristiaid gan y bydd yn difetha'r union beth y maent yn ei hoffi am yr ardal. Mae hyn yn unol â'r dull twristiaeth gynaliadwy y mae'r cyrchfan eisoes wedi ymrwymo iddo.